# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

## Adroddiad Cam yr Haf

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
69/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
07/10/2021



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80391-025-3

© Hawlfraint y Goron 2021

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021: Adroddiad Cam yr Haf

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymu

ISBN: 978-1-80391-025-3
7 Hydref 2021
© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**

1. Prif Ganfyddiadau ........................................ 2
2. Cefndir a Methodoleg ........................................ 4
3. Perfformiad dros yr Haf ........................................ 5
4. Cyfyngiadau COVID-19 a'r Effaith yn y Dyfodol ........................................ 12
5. Hyder ac Archebion ar gyfer yr Hydref ........................................ 21

## 1. Prif Ganfyddiadau

### Haf prysur

1.1 Mae tua hanner (48%) o weithredwyr wedi cael mwy o gwsmeriaid o'i gymharu â haf arferol (cyn COVID-19), mae tua thraean (31%) wedi cael yr un lefel, ac mae 21% wedi cael llai.

1.2 Fel y gweler yng nghamau baromedr eraill eleni, mae perfformiad yn cyfateb yn gryf â chapasiti gweithredu. Mae gweithredwyr llety, heblaw am hostelau, wedi perfformio'n well ar y cyfan gan eu bod yn fwy tebygol o weithredu i'w capasiti llawn, ac felly maent wedi gallu manteisio ar y galw mawr. Mae llawer mwy na hanner (57%) o fusnesau llety â gwasanaeth wedi cael mwy o gwsmeriaid nag yn ystod haf arferol, ac mae dim ond 17% wedi cael llai.

1.3 Fel mewn camau baromedr eraill yn ystod y pandemig, y prif reswm dros farchnad fywiog yw bod pobl ar wyliau yn y DU wedi bod yn trefnu gwyliau yng Nghymru yn lle tramor – mae 88% o'r rhai sy'n profi lefelau cwsmeriaid uwch yn dweud hyn.

1.4 Ymhlith y busnesau sy'n profi lefelau cwsmeriaid llai, y prif reswm unwaith eto yw y gwnaeth llai o gapasiti gyfyngu ar faint o archebion y gallent eu derbyn – mae 74% yn dweud hyn.

### Mae De-orllewin Cymru yn perfformio'n arbennig o dda

1.5 Mae pedwar rhanbarth Cymru wedi bod yn brysurach nag arfer (cyn COVID-19) yr haf hwn, ond yn enwedig De-orllewin Cymru. Mae 56% o fusnesau yn y rhanbarth hwn wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn o'i gymharu â'r arfer.

### Cynnal mesurau iechyd a diogelwch yn wirfoddol

1.6 Mae bron pob busnes (97%) yn dewis cynnal rhai mesurau diogelwch yn wirfoddol nad oes angen iddynt eu cynnal mwyach yn ôl y gyfraith. Mae sawl math o fesurau sy'n cael eu cynnal – y mwyaf cyffredin yw hylifau diheintio dwylo (87% o'r rhai sy'n cynnal mesurau), glanhau ychwanegol (65%) a chadw pellter cymdeithasol (54%). Mae teimlad cyffredinol bod gweithredwyr dal am wneud yr hyn y gallant i atal COVID-19, hyd yn oed os yw'n effeithio ar elw.

### Mae COVID-19 yn gadael rhai cymynnau cadarnhaol

1.7 Mae tri ym mhob pump (60%) yn dweud bod COVID-19 wedi'u hannog i wneud newidiadau parhaol o ran sut y maent yn rhedeg eu busnes, gyda 22% pellach ddim yn gwybod eto. Y newidiadau mwyaf cyffredin yw parhau â glanhau dwfn (29%) a pharhau i dderbyn archebion ymlaen llaw (15%).

**Rhagolwg addawol am weddill y flwyddyn**

1.8 Mae gan tua hanner (48%) o fusnesau fwy o archebion ymlaen llaw am weddill 2021 nag sy’n arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae gan 35% yr un lefel.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn ymwneud â haf 2021.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 901 o gyfweliadau dros y ffôn (mae camau blaenorol wedi cael sampl o 800). Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%. Yn gyffredinol, mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth. Rydym wedi cynyddu'r samplau o fwytai / tafarndai / caffis o 40 i 80 ers y camau blaenorol.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 107 | 59 | 82 | 44 | **292** |
| Llety hunanddarpar | 86 | 59 | 71 | 40 | **256** |
| Meysydd carafannau / gwersylla | 58 | 30 | 24 | 11 | **123** |
| Hostelau | 13 | 3 | 6 | 3 | **25** |
| Atyniadau | 32 | 17 | 19 | 18 | **86** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 13 | 8 | 11 | 7 | **39** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 16 | 24 | 12 | 28 | **80** |
| **Cyfanswm** | **325** | **200** | **225** | **151** | **901** |

2.3 Mae 61% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 31 Awst a 16 Medi.

## 3. Perfformiad dros yr Haf

## Ar agor yn ystod yr haf




### Rhyddhad dros ailagor

3.1 Mae bron pob busnes (94%) a gafodd ei gyfweld wedi bod ar agor yr haf hwn. Yn gyffredinol, mae gweithredwyr wedi cael rhyddhad i dderbyn cwsmeriaid eto ar ôl cyfnodau hir o ddiffyg incwm.

*"Rwy'n falch y cafodd y cyfyngiadau eu codi oherwydd na fyddem wedi goroesi eleni fel arall"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*"Rydym yn hapus i agor ein drysau i'r cwsmeriaid eto"*
Bwyty, y Gogledd


### Mae rhesymau dros beidio ag ailagor yn aml yn bersonol

3.2 Fel arfer, mae gan y nifer fach o weithredwyr nad ydynt yn ailagor eu busnesau eto resymau personol megis eu hiechyd bregus eu hunain. Mae rhai o'r busnesau hyn wedi penderfynu cau'n barhaol – mwy ar hyn nes ymlaen.

*"Mae'r ddau ohonom yn oedrannus ac rydym yn cadw draw oddi wrth bobl"*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

*"Caewyd ein busnes dros dro yn 2019 gan fod rhaid i'm gŵr gael triniaeth ganser.Ar ôl hynny, daeth y pandemig ac, oherwydd bod y ddau ohonom yn y grŵp oedran sy'n agored i niwed, penderfynom werthu'r busnes."*
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

## Capasiti gweithredu




*Os newidiodd capasiti gweithredu ar ôl llacio cyfyngiadau ar 7 Awst, rydym wedi cofnodi eu lefel o gapasiti ers yr amser hwn. Mae 'capasiti' arferol yn golygu cyn COVID-19.*

### Capasiti gweithredu a'r effeithiau ar nifer y cwsmeriaid

3.3 Mae dwy ran o dair (66%) o weithredwyr wedi bod yn gweithredu i'w capasiti llawn. Mae hyn yn amrywio fesul sector. Mae 81% o fusnesau llety hunanddarpar wedi bod yn gweithredu i'w capasiti llawn, ynghyd â 69% o weithredwyr llety â gwasanaeth a meysydd carafannau.


3.4 Mae hostelau a sectorau heb lety (atyniadau, darparwyr gweithgareddau, bwytai, tafarndai a chaffis) yn parhau i gael eu herio'n fwy gan gapasiti gweithredu, fel ein bod wedi'i weld trwy gydol y pandemig. Mae oddeutu traean o fusnesau yn y sectorau hyn wedi bod yn gweithredu ar gapasiti o lai na 75% o'r capasiti arferol.

> *“Roedd 26 o fyrddau y tu mewn ond rydym wedi mynd ag 13 ohonynt i'r tu allan.Mae'n gweithio inni ac mae pobl yn teimlo'n ddiogel.Mae dal llawer o ofn o gwmpas. Mae nifer o'n cwsmeriaid yn oedrannus ac mae ganddynt broblemau anadlu felly nid ydynt yn gwisgo masgiau.”*
> Tafarn, y Canolbarth

> *“Nid ydym wedi bod yn rhedeg ochr breswyl y busnes.Mae wedi bod gweithgareddau hamdden yn unig, gyda chyfyngiadau ar feintiau grwpiau.”*
> Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

3.5 Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer canlyniadau'r cwestiwn canlynol.


## Nifer ymwelwyr yr haf




**Mae perfformiad yn parhau i gyfateb yn gryf i'r capasiti gweithredu**

3.6 Mae tua hanner (48%) o weithredwyr sydd wedi bod ar agor yr haf hwn wedi cael mwy o gwsmeriaid o'i gymharu â blwyddyn arferol, mae tua thraean (31%) wedi cael yr un lefel, ac mae 21% wedi cael llai.

3.7 Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae canlyniadau C3 yn cyd-fynd yn gryf â chapasiti gweithredu (C2). I raddau helaeth, mae hwn yn egluro pam mae perfformiad gweithredwyr llety, heblaw am hostelau, wedi bod yn gryfach o'i gymharu â blwyddyn arferol na'r sectorau eraill.



*Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19*

**Haf prysur iawn i feysydd carafannau, llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar**

3.8 Mae pob math o weithredwr llety heblaw am hostelau wedi mwynhau haf prysur iawn o'i gymharu â blwyddyn arferol. Gallai rhai fod wedi gwneud hyd yn oed yn well pe bai ganddynt fwy o gapasiti.

*"Gallem fod wedi gosod y carafannau dwy neu dair gwaith drosodd"*
Parc carafannau, y Gogledd

*"Mae wedi bod ein blwyddyn brysuraf erioed.Ni fu unrhyw gyfnodau tawelach."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd


**Perfformiad cymysg mewn sectorau eraill**

3.9 Mae hostelau a sectorau heb lety yn adrodd canlyniadau cymysg o'i gymharu â blwyddyn arferol. Mae rhai wedi cael galw mawr iawn ond nid ydynt wedi gallu ymateb iddo oherwydd capasiti cyfyngedig, ond mae eraill wedi colli marchnad benodol.

*"Rydym wedi colli yr holl archebion ysgol"*
Hostel, y Canolbarth

*"Mae gennym 35 o fyrddau ar hyn o bryd yn lle 60.Gwnaeth capasiti llai gyfryngu ar faint o archebion y gallem eu cymryd, a oedd yn golygu bod gennym lai na'r arfer."*
Tafarn, y Canolbarth

## Perfformiad fesul rhanbarth





*Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19*

3.10 Mae De-orllewin Cymru wedi gwneud yn arbennig o dda yr haf hwn.

> *"Roedd Dyfnaint a Chernyw yn llawn felly daeth pobl i Gymru yn lle.Cawsant eu synnu bod yr ardal mor hardd."*
> Llety hunanddarpar, y De-orllewin

## Rhesymau dros fod yn brysurach




*Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19*

**Aros yn y DU yn hytrach na theithio dramor**

3.11 Fel ein bod wedi'i weld trwy gydol y pandemig yn ystod cyfnodau pan fo'r cyfyngiadau wedi cael eu llacio, mae pobl o'r DU ar wyliau wedi bod yn daer i gael mynd am seibiant, ond mae mynd dramor naill ai wedi bod yn amhosibl neu'n rhy ansicr / cyfyngol. Mae Cymru wedi elwa ar hyn. Mae rhai bellach yn gobeithio y gall Cymru gadw'r lefel hon o dwristiaeth a pheidio â cholli pobl o'r DU ar wyliau i gyrchfannau tramor y flwyddyn nesaf.

*"Rydym yn gobeithio y bydd pobl yn parhau i drefnu gwyliau yn y DU y flwyddyn nesaf a pheidio â mynd ar yr awyren gyntaf dramor.Gobeithio bod yr haf hwn wedi golygu bod y DU wedi'i hailddarganfod fel cyrchfan wyliau fywiog."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*"Gyda chyfyngiadau yn cael eu codi, mae pobl bellach yn trefnu gwyliau dramor ac rwy'n poeni y bydd busnes yn lleihau eto."*
Llety hunanddarpar, y Gogledd


**Mae Cymru hefyd wedi elwa ar gyrchfannau eraill y DU yn bod yn llawn**

3.12 Yn ogystal â phobl o'r DU ar wyliau yn cael eu hatal rhag mynd dramor, ni allai rhai hefyd gael eu dewis cyntaf o gyrchfan yn y DU ac felly daethant i Gymru.

*"Rydym wedi cael llawer o bobl yn dod i'n busnes na allant fynd dramor a hefyd pobl sydd fel arfer yn mynd ar wyliau i Gernyw neu Ddyfnaint ond ni allent gan fod pob man yn llawn."*
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

*"Roedd rhai pobl yn methu â mynd i'r lle yr oeddent am ymweld ag ef – roedd Dyfnaint a Chernyw yn llawn – felly daethon nhw i Gymru fel y dewis olaf.Mae llawer wedi aildrefnu dod eto gan fod Cymru a'r ardal wedi creu cymaint o argraff arnynt, felly credaf ei fod wedi gwneud llawer o les inni."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

## Rhesymau dros fod yn dawelach




*Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19*

### Methu â chyflawni'r galw

3.13 Fel y trafodwyd yn gynharach, y prif reswm dros rai busnesau yn cael llai o gwsmeriaid o'i gymharu â blwyddyn arferol yw capasiti cyfyngedig. Nid yw'n wir y bu diffyg galw'r haf hwn.

> *“Rydym wedi bod yn gwrthod pobl. Pe gallem fod wedi agor yn llawn, byddai wedi bod yn haf da iawn.”*
> Tafarn, y Gogledd


3.14 Mewn rhai achosion, mae gweithredu i gapasiti llai wedi cael ei orfodi gan ddiffygion staff, nid rheolau COVID-19.

> *“Mae diffyg cogyddion felly rydym wedi gorfod gwrthod pobl wrth y drws”*
> Bwyty, y Canolbarth

> *“Ni allem ddod o hyd i unrhyw un i weithio.Cyn COVID-19, roedd gennyf dri aelod o staff.Ar ôl COVID-19, roedd gen i un ar ffyrlo yn unig nad oedd ganddo awydd i ddod yn ôl am bum diwrnod yr wythnos.Ni allaf fynd trwy'r llwyth gwaith mewn un diwrnod.”*
> Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

## 4. Cyfyngiadau COVID-19 a'r Effaith yn y Dyfodol

### Mesurau gwirfoddol




**'Rydym am gadw rhai mesurau diogelwch'**

4.1 Cododd Llywodraeth Cymru'r rhan fwyaf o gyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru o 7 Awst. Mae gofyn i fusnesau gynnal eu hasesiad risg eu hunain a gweithredu unrhyw fesurau y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal iechyd a diogelwch, er nad oes gofyn cyfreithiol i weithredu unrhyw fesur penodol.


4.2 Mae busnesau wedi croesawu llacio'r cyfyngiadau, ond ar yr un pryd mae bron pob un yn dewis cynnal mesurau nad oes rhaid iddynt eu cynnal yn ôl y gyfraith mwyach. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson ar draws pob sector a rhanbarth yng Nghymru. Mae teimlad cyffredinol bod gweithredwyr dal am wneud yr hyn y gallant i atal COVID-19, hyd yn oed os yw'n cael effaith ar faint o elw y gallant ei ennill wrth redeg y busnes. Nid yw unrhyw un am gael cyfnod arall o gyfyngiadau symud.

*"Cyn gynted ag y byddwn yn mynd yn ôl i werthu fesul sedd yn hytrach nag adran, bydd hynny'n cynyddu ein proffidioldeb.Ond nid ydym yn mynd i rhuthro iddi.Rydym am sicrhau bod ein staff a'n cwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel."*
Atyniad, y Gogledd

*"Ar gyfer yr wyth wythnos nesaf, o leiaf, byddwn yn fod yn ofalus ac yn cadw'r cyfyngiadau mewn grym, gan weithredu i draean o'n capasiti.Nid ydym am gael cyfnod arall o gyfyngiadau symud dros y Nadolig.Mae'r cyfrifoldeb ar fusnesau i fod mor gyfrifol â phosibl."*
Caffi, y Canolbarth

*"Nid ydym wedi newid unrhyw beth.Mae pobl bach yn nerfus o hyd.Rydym dal yn cadw dau fetr ar wahân ac yn cadw'r sgrin wrth y bar.Nid oes modd eistedd neu archebu wrth y bar."*
Tafarn, y Canolbarth

**Q8 "Pa fesurau ydych chi'n dewis eu cynnal yn wirfoddol?" *(Annog os oes angen)***




*Gofynnwyd C8 i'r rhai sy'n dewis cynnal mesurau'n wirfoddol*

## Amrywiaeth eang o fesurau yn cael eu cadw

4.3 Mae mesurau gwirfoddol yn amrywio o rai eithaf syml sydd ag effaith fach ar y gwaith o redeg y busnes, megis darparu hylifau diheintio dwylo, i fesurau sy'n cael effaith fwy sylweddol ar broffidioldeb, megis cyfyngu ar gapasiti.

4.4 Cynnal lefelau uchel o ddiheintio yw'r mesur a gedwir fwyaf.

> *"Byddwn yn parhau i ddefnyddio masgiau wyneb a hylif diheintio dwylo hyd yn oed gyda'r cyfyngiadau'n cael eu codi er mwyn cadw staff a chwsmeriaid yn ddiogel drwy'r amser os oes modd"*
> Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*"Rwy'n gwneud yr holl waith glanhau ac, o ganyniad i COVID-19, rwy'n fwy ymwybodol o lanhau switshys, teclynnau rheoli'r teledu o bell, pethau fel hynny, a fydd yn parhau"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd


4.5 Er bod rheolau cadw pellter cymdeithasol wedi'u codi, mae nifer o fusnesau'n dewis cadw ymwelwyr ar wahân, naill ai drwy leihau capasiti neu drwy gyfyngu niferoedd o fewn ardaloedd penodol o'r safle megis ardaloedd bwyta, blociau cawodydd a chyfleusterau hamdden.

*"Nid wyf am fod yn hunanfodlon ac rwy'n gofyn i'r gwesteion beidio bod.Byddaf yn cadw'r niferoedd yn y cawodydd yn is y flwyddyn nesaf.""*
Parc carafannau, y Gogledd

*"Mae gennym slotiau amser ar gyfer brecwast a chinio"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## Capasiti gweithredu yn yr hydref

**Q9 "Ar ba lefel o gapasiti arferol y byddwch chi'n gweithredu yn yr hydref sy'n dod?"**




*Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19*

### Lefelau capasiti eithaf tebyg i'r haf

4.6 Bydd lefelau capasiti gweithredu ychydig yn uwch ond nid yn wahanol iawn i lefelau'r haf. Fel yn yr haf, mae gweithredwyr hunanddarpar yn fwyaf tebygol o weithredu i'w capasiti llawn – roedd 85% yn bwriadu gwneud hynny. Mae lefelau capasiti'n parhau i fod yn fwy cyfyngedig ymhlith hostelau a busnesau heb lety, lle bydd dau ym mhob pump sydd ar agor yr hydref hwn yn gweithredu ar gapasiti o lai na 75%.

## Rhesymau dros gapasiti cyfyngedig




*Gofynnwyd C10 i'r rhai sy'n gweithredu ar lai na gapasiti llawn yr hydref hwn*

### Amddiffyn cwsmeriaid a staff

4.7 Mae'r cymhelliant i barhau i weithredu ar gapasiti llai yn cael ei ysgogi gan yr awydd i amddiffyn cwsmeriaid a staff. Mae rhai yn dweud bod eu cwsmeriaid yn ei werthfawrogi pan fyddant yn darganfod bod mesurau cadw pellter yn cael eu cynnal.

*"Rydym wedi dewis uchafswm o ugain ar unrhyw adeg ac mae pobl yn hapus gyda hynny.Maent wedi bod yn fodlon aros pump neu ddeg munud."*
Atyniad, y Canolbarth

### Ddim yn gallu cael gafael ar staff

4.8 Fel y gwnaethom adrodd yng ngham mis Mehefin y baromedr yn gynharach eleni, mae'n anodd yn gyffredinol recriwtio staff ar gyfer rhai swyddi ar hyn o bryd, ac mae hyn yn gorfodi rhai gweithredwyr i gyfyngu ar faint o gwsmeriaid y gallant eu derbyn.

*"Ni allaf gael gafael ar staff. Os na allwn gael gafael ar staff, ni allwn weinyddu pobl."*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth


### Yn arferol i rai leihau capasiti ar yr adeg hon o'r flwyddyn

4.9 Nid yw rhai busnesau fel arfer yn gweithredu ar gapasiti llawn trwy gydol y flwyddyn ac maent yn rhedeg gweithrediadau llai pan fo tymor brig yr haf drosodd.

*"Rydym yn fusnes tymhorol"*

Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

## Newidiadau parhaol wedi'u hannog gan COVID-19




### Rhai cymynroddion cadarnhaol yn sgil COVID-19

4.10 Er bod yr argyfwng COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant twristiaeth yn ystod llawer o 2020 a 2021, gallai rhai o'r effeithiau tymor hir fod yn gadarnhaol mewn gwirionedd. Mae gorfod rhedeg busnes yn wahanol yn ystod y pandemig wedi agor llygaid rhai gweithredwyr i sut y gallent barhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae tri o bob pump (60%) yn dweud bod COVID-19 wedi'u hannog i wneud newidiadau parhaol, gyda 22% ddim yn gwybod eto a dim ond 18% yn dweud y byddant ar ryw adeg yn dychwelyd i'r modd yr oeddent yn gweithredu cyn COVID-19.

**Mae'n dda bod yn lân**

4.11 Y newid a nodir yn fwyaf yw y bydd glanhau dwfn yn parhau. Mae'r pandemig wedi rhybuddio rhai gweithredwyr pa mor drylwyr y gallent fod wrth gynnal amgylchedd glân iawn i'w cwsmeriaid, ac mae'n well ganddynt bellach ei gadw fel hynny.

*"Byddwn yn parhau i weithredu gyda'r un lefelau glanhau ag yn ystod COVID-19"*
Atyniad, y Canolbarth

**Archebu ymlaen llaw**

4.12 Nid oedd pob busnes arfer cymryd archebion ymlaen llaw, a hwythau bellach wedi gweld y buddion yn ystod y pandemig, bydd y newid hwn yn parhau. Mae oddeutu chwarter (26%) yr atyniadau wedi rhoi'r ateb hwn.

"Rydym wedi dysgu sut i weithredu'n fwy effeithlon. Mae gennym lawer mwy o reolaeth [oherwydd archebion ymlaen llaw]. Gallwn dynnu trenau os nad ydynt yn rhedeg hyd at eu capasiti er enghraifft."
Atyniad, y Gogledd

4.13 Yn ogystal â chymryd archebion ymlaen llaw ar gyfer y daith gyfan, bydd rhai gweithredwyr bellach yn parhau i gymryd archebion ymlaen llaw ar gyfer agweddau penodol ar ymweliad megis defnyddio cyfleusterau bwyta neu hamdden. Mae'n helpu i osgoi gorlenwi ar adegau poblogaidd ac mae'n galluogi gweithredwyr i gynllunio adnoddau'n well.

"Roedd ardal twb poeth a rennir. Roedd pobl yn arfer mynd a dod fel y mynnont ond mae gennym system archebu bellach ar gyfer slotiau wedi'u dyrannu a fydd yn parhau."
Parc carafanau, y Canolbarth

*"Byddwn yn cadw slotiau amser i frecwast gan ein bod yn gwastraffu llai"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

**Newid mewn gwasanaethau**

4.14 Mae COVID-19 wedi annog nifer o weithredwyr i newid y gwasanaethau y maent yn eu darparu – mewn rhai achosion trwy gadw gwasanaethau newydd, ac mewn achosion eraill trwy beidio ag ailddechrau'r gwasanaethau y gwnaethom eu hatal yn ystod y pandemig.

4.15 Mae darpariaeth bwyd yn fath cyffredin o wasanaeth sydd wedi newid. Mae rhai wedi atal y gwasanaeth hwn, ond roedd yn rhaid i eraill ddarparu bwyd tecawê er mwyn goroesi'r argyfwng COVID-19 a byddant bellach yn parhau i wneud hynny.

"Rydym wedi dechrau gwneud ein siocled ein hunain a byddwn hefyd yn dechrau gwneud ein cyffug ein hunain cyn bo hir hefyd. Nid ydym yn canolbwyntio cymaint ar y caffi rhagor. Rydym yn bwriadu cyflogi prentis newydd i helpu gyda'r cyffug. Rydym

yn mynd i ddechrau siop symudol hefyd i yrru o gwmpas y meysydd gwersylla yn cynnig losin symudol."
Caffi, y Gogledd

*"Roedd yn rhaid inni ddechrau cynnig bwyd tecawê er mwyn osgoi mynd i'r gwellt fel busnes"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*"Yn ystod y pandemig, gosodais gegin yn ein llety gwely a brecwast, felly bydd ein llety yn parhau i fod yn un hunanddarpar yn y dyfodol"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

4.16 Mae enghreifftiau eraill o newidiadau mewn gwasanaeth yn cynnwys cadw rhai gwasanaethau o bell megis gweithdai rhithwir neu gofrestru o bell, a disgwyl i westeion wneud mwy drostynt eu hunain megis dod â'u dillad gwely eu hunain neu helpu eu hunain i'r hyn sydd ei angen arnynt yn yr ardal fwyta.

*"Mae'r pandemig hwn wedi gwneud inni addasu ein rhaglen. Er enghraifft, rydym bellach yn cynnig gweithdai rhithwir i ysgolion, felly mae'n fwy hygyrch."*
Atyniad, y Gogledd

*"Hunan-gofrestru, a all fod ar gael 24 awr o'r dydd os yw gwesteion yn mynd yn sownd ar yr M4. Mae'n fwy hyblyg ac yn hawdd ei ddefnyddio."*
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

*"Mae bod â'r gallu i roi pupur a halen ac ati a chyllyll a ffyrc ar y byrddau a gadael i bobl hunan-weinyddu yn cymryd llai o amser. Nid oes digon o staff gennym felly mae'n gweithio inni."*
Bwyty, y Canolbarth

**Dod â phopeth i ben**

4.17 Mae'r pandemig wedi ysgogi rhai busnesau i roi'r gorau i fasnachu. Mewn rhai o'r achosion hyn, mae wedi cyflymu cynlluniau i ymddeol.

*"Mae diabetes ar fy ngwraig. Ein pwynt gwerthu unigryw oedd yr olygfa o'r môr o'r ystafell frecwast. Roedd yn rhaid inni gynnig brecwast yn yr ystafelloedd a chael llai o bobl, gan gynnig llai na'r hyn yr hoffem ei wneud. Roedd yn rhaid inni leihau'r tâl yr oeddem yn ei godi a chael llai o ymwelwyr, felly rydym yn dod i ben â'r busnes dros yr ychydig wythnosau nesaf. Byddwn yn byw yma am y tro a mwynhau'r olygfa bob dydd ein hunain."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Rwyf wedi bod yma ers 21 mlynedd. Rwyf wedi cael digon erbyn hyn. Mae COVID-19 wedi gwneud imi eisiau gwerthu'r busnes."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## Rhagor o feddyliau ar effaith COVID-19 yn y dyfodol

### Ofn cyfnod arall o gyfyngiadau symud

4.18 Mae busnesau wedi bod trwy lawer o bethau dros y 18 mis diwethaf. A hwythau ar agor bellach, maent yn awyddus iawn i beidio â phrofi cyfnod arall o gyfyngiadau symud. Dyma ran o'r cymhelliant y tu ôl i gynnal rhai mesurau iechyd a diogelwch yn wirfoddol.

*"Rwy'n falch o weld y cyfyngiadau'n cael eu codi ond rwy'n poeni y gallai busnesau gael eu cau eto."*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

### Mae rhai yn awyddus i barhau â busnes ar unwaith

4.19 Mae rhai gweithredwyr yn teimlo bod angen i ni bellach roi'r argyfwng y tu ôl inni, gan fod cyfyngiad ar ba mor hir y gallant barhau i ddioddef cyfnodau o gyfyngiadau.

*"Mae manteision ac anfanteision. Rydym wedi cadw'r dafarn yr un fath ac nid ydym wedi codio unrhyw gyfyngiadau yn ein heiddo. Mae'r achosion o COVID-19 yn yr ardal yn uwch nag oedden nhw y llynedd. Mae wedi rhoi'r hyder i bobl ddod allan gan eu bod yn gwybod ein bod yn dilyn ein cyfyngiadau ein hunain, ond ni all busnesau barhau fel y maent."*
Tafarn, y Canolbarth

*"Mae'r cyfyngiadau'n cael eu codi wir wedi ein helpu. Mae bellach gennym yr holl offer sydd eu hangen arnom fel y gallwn fynd ati.*
Atyniad, y De-ddwyrain

*"Oni bai fod pawb yn cael y brechiad, byddwn ni'n iawn"*
Tafarn, y Canolbarth

### Wedi'u gadael i ddelio â'r dryswch ymhlith rheolau gwahanol

4.20 Mae rhai gweithredwyr yn dweud bod cael rheolau COVID-19 gwahanol yng Nghymru a Lloegr yn y gorffennol, ac ar hyn o bryd o hyd, wedi achosi llawer o drafferth iddynt. Mae rhai cwsmeriaid o Loegr yn cyrraedd yn peidio am dderbyn bod rheolau'n llymach yng Nghymru, ac mae'n rhaid i staff ddelio â'r gwrthdaro. Hefyd, mae rheolau gwahanol ynglŷn â pheidio â gwisgo masgiau mewn lleoedd megis tafarndai'n peri dryswch.


*"Mae'r gwahaniaethau o ran mesurau COVID-19 yn gwneud pethau'n anodd. Mae cwsmeriaid o Loegr yn cael eu gwylltio ynglŷn â masgiau."*
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

*"Mae wedi bod yn anodd gyda phobl yn dod dros y ffin ac yn ei gymryd nas oes rhaid iddynt wisgo masgiau. Cefais fy ngalw yn 'anghwrtais' am ofyn i rywun wisgo un."*
Hostel, y Gogledd

*“Rydyn ni wedi cael llawer o wrthdaro â phobl o Loegr nad ydynt wedi deall bod angen iddynt wisgo masgiau mewn mannau cyhoeddus. Mae pobl yn cerdded i'r dderbynfa heb fasgiau, dan ddweud nad ydynt wedi'u gwisgo mewn tafarndai.”*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## 5. Hyder ac Archebion ar gyfer yr Hydref

### Hyder cyffredinol




*Gofynnwyd C11 i fusnesau sy'n bwriadu agor yr hydref hwn*

**Lefel dda o hyder**

5.1 Mae tri ym mhob pedwar (75%) gweithredwr yn teimlo'n hyderus am redeg eu busnes er elw am weddill y flwyddyn. Gweler lefelau uchel o hyder ym mhob sector a rhanbarth.


*"Rwy'n meddwl ein bod eisoes wedi bod trwy'r gwaethaf, felly rwy'n eithaf optimistaidd ac yn obeithiol ar gyfer y dyfodol. Os bydd pethau'n parhau fel oeddent yn ystod yr haf hwn, mae pethau'n edrych yn dda ar gyfer ein busnes."*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

5.2 Nid yw diffyg hyder o reidrwydd yn ymwneud â meddwl y gallai lefelau o ymwelwyr fod yn isel; yn lle, mae rhai mathau o gostau gweithredu wedi cynyddu, ac felly mae'n anodd parhau'n broffidiol.

*"Mae'r 5% ar TAW wedi bod yn fendith go iawn. Pe gallem gadw gafael ar hynny rhywsut, byddai'n helpu gyda'r meintiau elw sy'n lleihau. Mae ein prisiau bwyd wedi cynyddu 15-18% ac mae'n debygol y byddwn yn cael ein gwthio i gynyddu cyflogau."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## Hyder fesul sector

**Q11 "Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynglŷn â rhedeg busnes twristiaeth yn broffidiol am weddill y flwyddyn hon?"**





*Gofynnwyd C11 i fusnesau sy'n bwriadu agor yr hydref hwn*

**Lefelau da o hyder trwy gydol y sectorau, er bod rhai amrywiaeth**

5.3 Mae amrywiaeth mewn hyder fesul sector yn adlewyrchu perfformiad yn ystod yr haf yn fras. Mae'r sectorau llety hunanddarpar a charafanau wedi mwynhau niferoedd da o ymwelwyr yr haf hwn ac maent mewn hwyliau bywiog am weithredu'n broffidiol yn ystod gweddill y flwyddyn. Mae'r sector hostelau wedi cael haf heriol, ac adlewyrchir hyn yn yr hyder ar gyfer gweddill y flwyddyn.

## Tuedd mewn hyder

**Lefelau hyder ar gyfer y tymor ar ôl yr haf**





*Ni ofynnwyd cwestiwn am hyder ar ôl yr haf yn 2020*

**Mae'r gyfran o weithredwyr 'hyderus iawn' yn uwch nag mewn blynyddoedd diweddar cyn COVID-19**

5.4 Yn y blynyddoedd cyn COVID-19, roedd hyder wrth edrych ymlaen at y tymor ar ôl yr haf yn 'weddol' yn gyffredinol, gyda llawer o weithredwyr 'eithaf hyderus' ond cyfran lawer is o weithredwyr 'hyderus iawn'. Fodd bynnag, eleni mae cyfran amlwg uwch o weithredwyr yn 'hyderus iawn'.

## Archebion ymlaen llaw




Gofynnwyd C13 i fusnesau sy'n cymryd archebion ymlaen llaw ar gyfer gweddill eleni. Mae atebion 'ddim yn gwybod' wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau. Mae 'arferol' yn golygu cyn COVID-19.

### Yn edrych yn brysur

5.5 Mae gan tua hanner (48%) o fusnesau fwy o archebion ymlaen llaw am weddill 2021 nag sy'n arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae gan 35% yr un lefel. Mae llai o archebion gan 17% o fusnesau yn unig. Mae canlyniadau'n amrywio fesul sector, fel y dangosir ar y siart uchod. Yn gyffredinol, mae perfformiad pob sector ar gyfer gweddill y flwyddyn o'i gymharu â'r arfer yn edrych yn eithaf tebyg i sut y gwnaethant yn ystod yr haf.

5.6 Mae'r un yn wir fesul rhanbarth, gyda De-orllewin Cymru yn parhau i berfformio'n dda o'i chymharu â rhanbarthau eraill. Mae tua thri ym mhob pump (61%) o fusnesau yn Ne-orllewin Cymru wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw nag arfer. Mae hyn yn cymharu â 44% o fusnesau yng ngweddill Cymru, er bod hwn yn gadarnhaol hefyd.

*"Rydym yn llawn ar gyfer mis Medi.Fel arfer, byddai'n rhaid inni hysbysebu ein busnes er mwyn cael archebion ar gyfer y mis hwn, ond eleni mae archebion yn dod i mewn ar eu ben eu hunain."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*"Rydym dal i weithio ein ffordd drwy archebion sydd wedi'u gohirio trwy gydol mis Hydref"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Rwy'n llawn hyd nes ein bod yn cau ym mis Tachwedd ac wedyn yn llawn o fis Ebrill i fis Awst 2022, felly mae pethau'n edrych yn dda ar hyn o bryd"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Holiadur

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

Llety â gwasanaeth ❑
Llety hunan arlwyo ❑
Maes carafannau / pebyll ❑
Hostel ❑
Atyniad ❑
Cynal gweithgaredd ❑
Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 A yw eich busnes wedi bod ar agor yn ystod yr haf yma?

Oedd *(ewch i Q2)* ❑
Nac oedd *(ewch i Q7)* ❑

Q2 Ar ba lefel o gapasiti arferol ydych chi wedi bod yn gweithredu?

*Os newidiodd y capasiti yn yr haf, cofnodwch y lefel gyfredol*

Capasiti llawn ❑
75 – 99% ❑
50 – 74% ❑
25 – 49% ❑
Llai na 25% ❑

Q3 Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yr haf hwn o'i gymharu ag haf arferol?

Mwy na'r arfer ❑
Tua'r un peth â'r arfer ❑
Llai na'r arfer ❑
Ddim yn gwybod ❑

Q4 *Os mwy nag arfer*

Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer?

*Annog os oes angen*

Ymwelwyr y DU yn archebu yng Nghymru yn lle archebu dramor ❑
Mae pobl yn ysu am fynd ar wyliau ❑
Lefel sylweddol o ail-archebion o gansladau blaenorol ❑
Tywydd braf ❑
Ymwelwyr sy'n dychwelyd ❑
Argymhellion ❑
Ein marchnata ein hunain ❑
Ddim yn gwbod ❑
Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________

Q5 *Os llai nag arfer*

Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael llai o gwsmeriaid nag arfer?

*Annog os oes angen*

- Roedd llai o gapasiti yn cyfyngu faint o archebion y gallem eu cymryd ❑
- Tywydd gwael ❑
- Ni wnaethom hyrwyddo'r busnes yn weithredol ❑
- Roedd pobl yn ofalus am archebu ❑
- Pobl yn archebu dramor yn lle ❑
- Llawer o gansladau hwyr ❑
- Colli marchnad benodol ❑
- Diffyg eglurder ynghylch pryd i dderbyn archebion ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ________________________________

Q6 Cyfwelydd: cofnodi unrhyw sylwadau defnyddiol a wneir am berfformiad yr haf

________________________________

Q7 Nawr bod y rhan fwyaf o gyfyngiadau Cofid wedi'u dileu yng Nghymru, a yw'ch busnes ar hyn o bryd yn dewis cynnal unrhyw fesurau diogelwch y tu hwnt i ofynion hunanasesiad?

- Ydw ❑
- Nac ydw ❑

Q8 *Os 'ydw' i'r uchod*

Pa fesurau ydych chi'n dewis eu cynnal yn wirfoddol?

*Annog os oes angen, ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Aros ar gau am y tro ❑
- Cwsmeriaid yn gorfod gwisgo masgiau mewn lleoedd lle nad yw bellach yn orfodol ❑
- Masgiau neu sgriniau ar gyfer staff ❑
- Llai o gapasiti / cyfyngu ar nifer y bobl mewn rhai ardaloedd ❑
- Systemau unffordd ❑
- Cadw pellter cymdeithasol ❑
- Glanhau ychwanegol ❑
- Amser ychwanegol rhwng gwesteion ❑
- Glanweithwyr dwylo ❑
- Arwyddion rhybudd iechyd i westeion ❑
- Defnyddio gofod awyr agored cymaint â phosibl ❑
- Casglu manylion ar gyfer olrhain cyswllt ❑
- Archebu ymlaen llaw yn unig ❑
- Gwasanaeth bwrdd yn unig ❑
- Mwy o ddull 'ymarferol' *(darparwyr gweithgaredd, atyniadau)* ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ________________________________

Q9 *Pawb oni bai y rhai sydd ar gau yn Q8*

Ar ba lefel o gapasiti arferol y byddwch chi'n gweithredu yn yr hydref sy'n dod?

*Os ydych yn cau rhan o'r ffordd trwy'r hydref (e.e. meysydd gwersylla), cofnodwch y capasiti pan fydd ar agor*

- Capasiti llawn ❑
- 75 – 99% ❑
- 50 – 74% ❑
- 25 – 49% ❑
- Llai na 25% ❑
- Bydd ar gau trwy'r hydref ❑

Q10 *Os yw'n agor ond ddim ar capasiti llawn*

A oes unrhyw resymau penodol pam y byddwch yn gweithredu ar lai na gapasiti llawn?

*Peidiwch ag annog, ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- I ddiogelu staff / ein hunain ❑
- I ddiogelu cwsmeriaid ❑
- Prinder staff ❑
- Mae'n well gen i fwy o le ❑
- Ni chaniateir grwpiau ysgol eto ❑
- Amgylchiadau personol ❑
- Arfer yn leihau capasiti yn yr hydref ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ____________________

Q11 *Pawb heblaw y rhai sy'n ar gau yn C8 neu C9*

Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynglŷn â rhedeg busnes twristiaeth yn broffidiol am weddill y flwyddyn hon?

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Dim yn gwybod ❑
- Dim yn berthnasol ❑

Q12 *Pawb*

A yw argyfwng Covid wedi eich ysgogi i wneud unrhyw newidiadau parhaol yn y ffordd rydych chi'n rhedeg y busnes?

*Annog os oes angen, ticwich bob un sy'n berthnasol*

- Yn parhau i dderbyn cyn-archebion ❑
- Ni fydd yn derbyn pobl heb archebion ❑
- Newid mewn gwasanaethau (e.e. darparu bwyd) ❑
- Targedu mathau newydd o gwsmeriaid ❑
- Gwell presenoldeb ar-lein ❑
- Niferoedd cyfyngedig mewn / mewn rhai lleoedd / amseroedd i aros ❑
- System unffordd i aros ❑
- Wedi agor lle awyr agored newydd ❑
- Yn parhau i ddal manylion cyswllt cwsmeriaid ❑
- Bydd yn fwy hyblyg gyda thelerau canslo ❑
- Bydd yn llymach gyda thelerau canslo ❑
- Mae angen mwy o staff ❑
- Mae angen llai o staff ❑
- Glanhau dwfn i barhau ❑
- Newid mewn cofrestriad treth (e.e. cyfraddau busnes yn lle treth gyngor) ❑
- Yn dibynnu mwy ar asiantau trydydd parti (e.e. Airbnb, Booking.com) ❑
- Ni fydd yn defnyddio asiantau trydydd parti mwyach (e.e. Airbnb, Booking.com) ❑
- Yn ymddeol / cau'r busnes yn barhaol yn gynharach na'r disgwyl ❑
- Yn fwy tebygol o weithredu trwy gydol y flwyddyn ❑
- Yn fwy tebygol o gau am ran o'r flwyddyn ❑
- Ddim yn gwybod eto ❑
- Arall ❑
- Dim - rydym wedi dychwelyd, neu byddwn yn dychwelyd i redeg popeth fel y gwnaethom cyn-Cofid ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ______________________________

Q13 Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych chi ar gyfer gweddill 2021 o'i gymharu â nifer yr archebion y byddech chi fel arfer yn eu cael ar yr adeg hon o'r flwyddyn?

- Mwy na'r arfer ❑
- Tua'r un peth â'r arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Ddim yn berthnasol – ddim yn cymryd archebion ymlaen llaw ❑

Q14 Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud am effaith codi cyfyngiadau Cofid ar berfformiad eich busnes wrth symud ymlaen?

*Cyfwelydd: cofnodwch hefyd unrhyw sylwadau defnyddiol a wnaed ynglyn a dewis cynnal mesurau a rhesymau pam*

______________________________